# Cwestiynau am Grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd

# CYMRAEG

**Beth yw'r grant?**

Bwriad y grant yw cefnogi gweithgareddau gwirfoddoli ieuenctid ledled Cymru. Rydym yn diffinio gwirfoddoli ieuenctid fel gwirfoddoli rhwng 14-25 oed. Dylai syniadau prosiect gael eu cynllunio a'u cyflwyno gan bobl ifanc.

**Ar gyfer beth y gellir defnyddio'r grant?**

Bydd y grant yn blaenoriaethu prosiectau sy'n mynd i'r afael ag un neu fwy o feysydd blaenoriaeth y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru. Fe ddylai prosiectau hefyd gael effaith gadarnhaol ar y gymuned ehangach**.**

**Pwy sy'n gymwys i gael grant?**

Prif bwrpas y grant yw i ariannu prosiectau sydd yn cael eu harwain gan bobl ifanc. Fe ddylai prosiectau fod yn rhan o fudiad / grŵp neu sefydliad sydd â chyfrif banc. Os nad yw hyn yn bosib, mae posib ffurfio partneriaeth gyda mudiad / grŵp neu sefydliad sydd â mynediad at gyfrif banc ble gellir talu'r grant.

**Mae ein cais wedi bod yn llwyddiannus, beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd gan paneli grantiau ar draws Cymru eu gofynion penodol o ran darparu prawf o wariant ac adrodd yn ôl. Yn gyffredinol, mae paneli yn debygol o fod eisiau gwybod gan ymgeiswyr llwyddiannus sut mae'r arian wedi'i wario, beth sydd wedi mynd yn dda a beth fyddai ymgeiswyr yn ei wneud yn wahanol. Mae angen gwario'r arian grant erbyn Mawrth 31ain o'r flwyddyn ariannol cyfredol. Bydd angen i bob prosiect llwyddiannus ddarparu gwybodaeth monitro gan gynnwys astudiaeth achos.